Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant








Gweithio gyda'n gilydd er mwyn y plant

Working together for the sake of the children



Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni


Tymor yr Hydref 2019

Governors' Annual Report to Parents

Autumn Term 2019







Clerc y Corff Llywodraethu

Clerc y Corff Llywodraethu ydy:
Mrs G Davies,
Cyfarwyddwr Cyfadran Addysg a Chynhwysiant,
Y Ganolfan Addysg, Ty Trevithick,
Abercynon, Rhondda Cynon Taf.
CF45 4UQ
Rhif ffôn: 01443 744000

Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Cadeirydd y Corff Llywodraethu ydy:
Mrs K Vickers-Hulse,
Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant,
Ffordd Cefn yr Hendy,
Meisgyn
CF72 8TL
01443 237837

Ethol Rhiant- lywodraethwyr

Y tro nesaf y bydd angen ethol Rhiant Lywodraethwr fydd ar **21.02.22**
Serch hynny, os bydd rhiant-lywodraethwr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad yma, byddwn yn trefnu etholiad arbennig ar yr adeg briodol.

Aelodau o'r Corff Llywodraethu

Dyma'r rhai sy'n aelodau o'r Corff Llywodraethu ar hyn o bryd:

Enw	Carfan Llywodraethwyr	Dyddiad Ymddeol
Mr R O'Neil	(Pennaeth)	N/A
Miss S Williams	(Cynrychiolydd y Staff Addysgu)	31.08.20
Mrs S Krieger	(Cynrychiolydd y Staff Cynorthwyol)	22.10.22
Mrs J James	(Cynrychiolydd y Gymuned)	17.11.20
Mrs J Heavisides	(Cynrychiolydd y Gymuned)	09.11.22
Mrs S Evans	(Cynrychiolydd y Gymuned)	15.03.21
Mrs C Willis	(Cynrychiolydd yr A.Ll.)	23.04.21
Dr M Gajraj	(Cynrychiolydd yr A.Ll.)	19.11.23
Mrs L Roberts	(Cynrychiolydd yr A.Ll.)	19.11.23
Cyng. H Rees	(Cynrychiolydd Awdurdod Llai)	20.09.20
Mrs J Morgan	(Rhiant Lywodraethwr)	12.10.23
Mrs H Holton	(Rhiant Lywodraethwr)	09.10.23
Mrs K Vickers-Hulse	(Rhiant Lywodraethwr)	21.02.22
Mr P Binning	(Rhiant Lywodraethwr)	12.10.23

Pan fydd yn gyflawn, dyma nifer yr aelodau ar gyfer pob carfan:

3 Chynrychiolydd yr A.Ll
1 Cynrychiolydd y Staff Cynorthwyol
1 Awdurdod Llai

3 Cynrychiolydd y Gymuned
1 Cynrychiolydd y Staff Addysgu

4 Rhiant Lywodraethwr
1 Pennaeth
Cyfanswm = 14

Yr Ysgol a'r Gymuned

Mae ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn un sy'n darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau, yn aml y tu hwnt i oriau'r ysgol, yn aml er mwyn cyflawni anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru mae nifer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol gan gynnwys addysg i oedolion, cefnogaeth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol'. Nid prosiect tymor byr yw datblygiad y cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned, ond cyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau i gydweithio mewn ffyrdd newydd er budd plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae gennym gyfleusterau cymunedol sy'n cynnig gofal cyn ac ar ôl ysgol i rieni sy'n gweithio. Mae staff yr ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau allgyrsiol ar y safle sy'n cynnwys sgiliau pêl-droed, rygbi, criced a phêl-rwyd, ymarferion Corawl ac Aelwyd yr Urdd. Rydym yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg i oedolion ar y safle. Daw PC Lloyd atom yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod a chynnal gwersi gydag holl ddisgyblion yr ysgol. Mae cysylltiadau agos gyda ni hefyd â'r Heddlu lleol a byddant yn ymweld â'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol i fonitro trafnidiaeth a'r sefyllfa parcio y tu allan i'r ysgol yn achlysurol.

Anghenion Addysgol Arbennig

Mae polisi'r ysgol ar gyfer adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cydfynd â gofynion y ddogfen Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, a gafodd ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2002. Mae Cyd-lynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol yn cydweithio'n agos ag aelodau eraill y staff i gyd i sicrhau bod cynlluniau addysgol unigol yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn cyflawni anghenion pob disgybl, a hynny'n addas i'r rheini sydd angen. Mae ADY hefyd yn cysylltu'n agos ag aelodau'r staff i gyd i sicrhau bod cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro, a'i asesu'n rheolaidd ac i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial.
Eleni, ar ddyddiad Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion ar Lefel Disgyblion :

- Mae 23 disgybl ar Gam Gweithredu'r Ysgol (23) / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar (7).
- Mae 0 disgybl ar Gam Gweithredu'r Ysgol a Mwy (0) /Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar a Mwy(gan gynnwys y rhai oedd â Nodyn i ddisgwyl Datganiad) (0)
- Nid oedd unrhyw ddisgybl o dan drefn Asesiad Statudol.
- Roedd 2 disgybl â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Dyddiadau'r Tymhorau ac Amserau'r Ysgol

Fe fydd pob ysgol ar gau ar Wyl y Banc Calan Mai, **dydd Gwener 8fed o Fai 2020**. Bydd yr ysgol hefyd ar gau ar gyfer diwrnodau HMS ar **02.09.19, 18.11.19, 06.01.20, 22.01.20, 20.04.20 a 20.07.20**. Fe all Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu dyrannu diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd ychwanegol, bydd yr ysgolion yn cael gwybod am hyn pan mae'n wybyddus. Os bydd rhaid cau'r ysgol ar gyfer cynnal etholiadau, rhaid unioni'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn academaidd.

Dyma Drefn y Diwrnod Ysgol:

Y Cyfnod Sylfaen		Cyfnod Allweddol 2	
Bore	9:00 – 12:00	**Bore**	9:00 – 12:15
Amser Cinio	12:00 – 1:15	**Amser Cinio**	12:15 – 1:15
Prynhawn	1:15 – 3:30	**Prynhawn**	1:15 – 3:30

Ar ddiwedd y dydd, caniateir i'r plant hynny sy'n cerdded adref adael y safle yn gyntaf. Gofynnir i Rieni a Gwarcheidwaid adael y safle'n brydlon er mwyn i'r bysiau gael eu rhyddhau. Os bydd unrhyw riant yn dymuno mynd â'u plentyn / plant adref yn gynnar, gofynnwn yn garedig i chi anfon llythyr o eglurhad neu ffonio'r ysgol cyn 2:30 y.p. os gwelwch yn dda. Os bydd rhiant yn dymuno i'w blentyn/plentyn gerdded adref o'r ysgol heb oedolyn, rhaid hysbysu'r ysgol o'r bwriad yn ysgrifenedig. Os bydd rhiant yn dymuno i'w blentyn/blant gerdded adref wedi iddo(i) deithio ar fws ysgol, rhaid trefnu hyn gyda'r cwmni trafnidiaeth a'r Awdurdod Lleol. Nid yw'n bosibl i'r ysgol ganiatau hyn.



	Tymor yn dechrau	Hanner Tymor yn dechrau	Hanner Tymor yn gorffen	Tymor yn gorffen
Hydref 2019	Dydd Llun Medi 2ail	Dydd Llun Hydref 28ain	Dydd Gwener Tachwedd 1af	Dydd Gwener Rhagfyr 20fed
Gwanwyn 2020	Dydd Llun Ionawr 6ed	Dydd Llun Chwefror 17eg	Dydd Gwener Chwefror 21ain	Dydd Gwener Ebrill 3ydd
Haf 2020	Dydd Llun Ebrill 20fed	Dydd Llun Mai 25ain	Dydd Gwener Mai 29ain	Dydd Llun Gorffennaf 20fed
Diwrnodau HMS	02.09.19 / 18.11.19 / 06.01.20 / 22.01.20 / 20.04.20 / 20.07.20			

Prosbectws yr Ysgol

Rydym yn adolygu Prosbectws yr Ysgol yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau mae Llywodraeth Cymru neu gyrff perthynol eraill yn eu mynnu. Newidiadau i'r prosbectws eleni yw rhestr staffio newydd, gweithdrefnau meddigyniaeth a dyddiadau gwyliau y flwyddyn academaidd newydd. Fel arfer, byddwn ni'n rhoi copi o'r prosbectws i rieni'r plant hynny sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu'r rheini sy'n trosglwyddo rhwng ysgol babanod ac ysgol iau / cynradd neu ysgol uwchradd. Ceir copi o Brosbectws yr Ysgol ar wefan yr ysgol. Mae pob rhiant newydd yn derbyn copi o 'Lawlyfr yr Adran Feithrin' sy'n cynnwys pob math o wybodaeth sydd yn berthnasol i'r plant bach newydd. Mae rhieni yn cael gwybod pan fydd unrhyw newidiadau yn y prosbectws cyfredol.

Mae ystod o wybodaeth ddiddorol am yr ysgol i'w gweld gan ddefnyddio'r rhyngrwyd. Gallwch e-bostio'r ysgol â chroeso. Mae cyfeiriad e-bost a chyfeiriad gwefan yr ysgol fel a ganlyn:

admin.yggglantrisant@rctcbc.gov.uk
www.yggglantrisant.cymru

Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad

Y Llywodraethwyr fydd yn gyfrifol am lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â materion allweddol y tynnodd yr arolygwyr ein sylw atyn nhw yn dilyn yr arolwg allanol fis Medi 2018. Cafodd rhieni gopi o grynodeb o'r adroddiad a gynhyrchwyd gan yr arolygwyr gyda chopi llawn ar gael yn electronig a thrwy ebost.

Mae'r Llywodraethwyr yn monitro cynnydd y cynllun yn eu cyfarfodydd tymhorol.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adolygu polisïau'r ysgol

Mae'r ysgol wedi paratoi nifer o ddogfennau polisi sy'n trafod meysydd y cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff / llywodraethwyr yn adolygu'r rhain yn barhaus ac yn eu diweddaru ar gyfer cynnwys datblygiadau a gofynion deddfau newydd. Mae manylion ychwanegol gan y Pennaeth neu Glerc yr Ysgol. Yn ystod Tymor yr Haf a Thymor yr Hydref 2019 adolygwyd ein polisiau Diogelu ac Amddiffyn Plant a Pholisi Gofal Iechyd yr ysgol.

Pennu Targedau

Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol yn amlinellu strategaethau a thargedau'r ysgol yn fanwl ynghyd â'r trefniadau adolygu. Mae'r cynllun cyfredol yn cynnwys targedau Rhifedd a Llythrennedd yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru, TGCh ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.



Manylion ar Faterion Presenoldeb

Caiff rhieni lythyr yn eu hysbysu pan fydd canran presenoldeb disgybl o dan 90% dros gyfnod o hanner tymor. Mae'r ysgol yn parhau i fonitro presenoldeb disgyblion sydd yn 'isel' bob wythnos, yn ogystal â monitro disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr. Dyma'r ystadegau ynglyn â materion presenoldeb y 3 thymor cyflawn a aeth heibio:

	% Presenoldeb	% Absenoldeb awdurdodedig	% Absenoldeb anawdurdodedig
Hydref 2018	96.96	1.98	1.06
Gwanwyn 2019	96.85	2.51	0.64
Haf 2019	96.23	1.67	2.10

Mae absenoldeb o ysgol yn ffactor gyfrannol mewn cyrhaeddiad isel disgyblion, felly mae Llywodraeth Cymru yn targedu gwella absenoldeb. Gall rhieni helpu'r sefyllfa drwy roi gwybod i'r ysgol os ydynt yn teimlo bod yna unrhyw broblemau sy'n atal disgyblion rhag mynychu neu'n achosi'r disgybl i deimlo nad yw eisiau mynychu'r ysgol. Ceisia'r ysgol anghymeradwyo rhieni rhag tynnu eu plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau yn ystod tymhorau ysgol gan y caiff hyn effaith andwyol ar ffigurau presenoldeb yr ysgol yn enwedig os bydd llawer o salwch yn yr ysgol. Gan ddilyn canllawiau a pholisi yr Awdurdod Lleol, ni fydd yr ysgol yn caniatau unrhyw gyfnodau o wyliau teuluol yn ystod y tymor heb ystyrraeth fanwl. Atgoffwn ein rhieni hefyd y dylid egluro pob absenoldeb trwy alwad ffôn i'r swyddfa ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb a phob diwrnod wedyn nes y bydd y plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Wedi derbyn eglurhad yn unig y bydd yr absenoldeb yn 'absenoldeb awdurdodedig'.

Mynediad i Ddisgyblion Anabl

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymwybodol o anghenion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2005 wrth lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol / Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg, a gweithrediad dyddiol y safle. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn gallu cyfranogi yng nghwricwlwm yr ysgol a (os ydynt yn dymuno) mewn gweithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, digwyddiadau chwaraeon/hamdden ac ymweliadau addysgiadol. Mae pob agwedd ar fynediad, gan gynnwys mynediad i wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio. Mae gan yr Awdurdod Strategaeth Hygyrchedd ac mae archwiliad wedi ei wneud o safle'r ysgol yn unol â'r strategaeth yma, fel rhan o friff yr Awdurdod, i nodi unrhyw rwystrau posib ac (yn y pen draw) wella mynediad i'r ysgol.

Canlyniadau Asesu Disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol a 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae copi o Ganlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2018-2019 wedi'i amgáu (ATODIAD A).



Adroddiad Ariannol - am y cyfnod 2018-2019

Atodwn gopi o Adroddiad Ariannol yr ysgol am y flwyddyn 2018-2019 (ATODIAD B).

Trefniadau Derbyn Disgyblion (Trosglwyddo)

Y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol (ar wahân i ysgolion yr Eglwys lle mai Corff Llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyniadau) o fewn ffiniau'r Awdurdod. Mae trefniadau derbyn, felly, yn cael eu gweithredu'n unol â pholisi'r Awdurdod ar dderbyniadau ysgol sy'n gynwysedig yn y llyfryn Dechrau'r Ysgol. Caiff rhieni gopi o'r llyfryn ar ôl llenwi cais am le yn yr ysgol i'w plentyn. Gellir gweld cynnwys y llyfryn hwn ar-lein hefyd ar wefan yr Awdurdod. Bydd disgyblion fel arfer yn aros yn yr ysgol hyd nes iddynt gwblhau blwyddyn chwech ac yna symud i'r ysgol uwchradd. Mae'r ysgol hon yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Llanhari, fodd bynnag, fe all disgyblion ymgeisio i fynychu unrhyw ysgol uwchradd o'u dewis yn unol â chydymffurfiaeth gyda pholisi mynediad yr Awdurdod.

Bwyta'n Iach

Mae polisïau a chynlluniau gwaith yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Annogir y disgbylion i fwyta ffrwythau ac yfed dwr amersoedd egwyl ac amser cinio. Yn ogystal â hyn, annogir y plant i blannu hadau a bylbiau llysiau a ffrwythau yng ngardd yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o fwydydd iachus.

Welsh Network of Healthy School Schemes

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Ysgol Sy'n Tyfu

Fis Medi 2019, bu 295 o ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd. I sicrhau lle i'r disgyblion hyn, ail-drefnwyd holl ddosbarthiadau'r ysgol ar ddiwedd 2018-2019. Mae rhai dosbarthiadau yn cynnwys dau oedran neu oedrannau 'cymysg' o ddisgyblion er mwyn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â gofynion Llywodraeth Cymru. Hysbyswyd rhieni ynghylch dosbarthiadau y flwyddyn academaidd 2019-2020, y sefyllfa staffio ac ati ynghyd â'r adroddiad ysgrifenedig blynyddol fis Gorffennaf 2019. Noder cynlluniwyd yr ysgol ar gyfer 1.5 o ddosbarthiadau i ddechrau bob blwyddyn.

Cyflwr yr Adeilad

Agorwyd yr ysgol yn swyddogol, yn yr adeilad presennol, ar Orffennaf 11eg 2005. Mae'n parhau i fod mewn cyflwr da ac wedi'i chynnal i safon uchel. Mae'r awyrgylch dysgu i'r disgyblion yn ddiogel, croesawgar, symbylus a glân gyda phob disgybl â mynediad i gyfleusterau toiled wedi'u cadw a'u cynnal i safon dda. Ceir cyfleusterau ymolchi cyfagos gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn rhannu cyfleusterau sy'n agos i'w hystafelloedd dosbarth. Lleolir cyfleusterau tai bach eraill wrth ochr neuadd yr ysgol gydag un arall y tu mewn i'r Ystafell Gymunedol. Mae'r cyfleusterau hyn yn cael eu monitro yn ystod y dydd ac yn cael eu glanhau'n ddyddiol i safon uchel gan ein staff glanhau a gofalu.

Y Cwricwlwm, Trefniadaeth Addysgol a Dulliau Addysgu

Ysgol Gymraeg yw ein hysgol ni a disgwylir i bob disgybl ac aelod o staff ddefnyddio'r iaith trwy'r dydd, bob dydd. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu sy'n cymryd i ystyriaeth y pwnc, anghenion unigol a thalentau arbennig y disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, dysgu trwy brofiadau ymarferol fydd y disgyblion. Yng Nghyfnod Allweddol 2, addysgir yn fwy ffurfiol ar y cyfan gyda sesiynau cwricwlwm craidd yn y boreau a gwaith thematig o dan 6 Maes Dysgu a Phrofiad Donaldson bob prynhawn. Yn dibynnu ar natur y dasg / gweithgaredd, caiff y disgyblion eu grwpio o fewn dosbarthiadau mewn nifer o ffyrdd yn ôl y galw. Gall yr athro/athrawes newid y grwpiau ar gyfer rhai gweithgareddau i sicrhau bod yr unigolyn yn gwneud ei orau glas ar bob achlysur. Ar draws y ddau gyfnod allweddol, datblygir sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm trwy ddilyn y fframweithiau statudol perthnasol.

Y Tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd



Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad



Y Pedwar Diben

Dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

yn ddysgwyr **uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
yn gyfranwyr **mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
yn ddinasyddion **egwyddorol, gwybodus** yng Nghymru a'r byd;
yn unigolion **iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Amcanion a Champau Byd Chwaraeon a Cherddorol

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol yn ystod y flwyddyn sydd yn ychwanegol i'r ddwy wers Addysg Gorfforol a drefnir ar amserlen cwricwlwm pob dosbarth. Cynhelir clybiau chwaraeon allgyrsiol yn wythnosol o dan oruchwyliaeth gwirfoddol y staff addysgu. Yn ogystal, ceir cyfleoedd cerddorol eang i'r plant gynrychioli'r ysgol mewn nifer o gyngherddau, gwasanaethau ac Eisteddfodau yn ystod y flwyddyn. Hoffem ddiolch i'r staff am eu parodrwydd i gynnal y clybiau hyn. Hoffem longyfarch y plant yn fawr iawn am eu hymdrechion. Cewch ddod o hyd i luniau / llwyddiannau ar gyfrif 'Twitter' yr ysgol **(@yggglantrisant)**. Gosodir lluniau o lwyddiannau ar y dudalen hon trwy gydol y flwyddyn.





Cynllun Datblygu'r Ysgol

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Datblygu'r Ysgol (ynghyd â'r staff). Mae'r cynllun yn nodi'r cyfeiriad y bydd yr ysgol yn ei ddilyn, dros gyfnod o dair blynedd, wrth ddarparu'r cwricwlwm. Caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu'n gyson er mwyn cymryd i ystyriaeth y cynnydd sydd wedi ei wneud ac unrhyw newidiadau i anghenion y cwricwlwm.

Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2020 wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Llywodraethwyr ac ar hyn o bryd yn cael ei weithredu gan y staff. Mae'r targedau a osodwyd yn cynnwys amcanion byr dymor, tymor canolig a hir dymor. Caiff targedau eu hadolygu'n gyson gan y Corff Llywodraethu.

Gweithgaredd 1 ~ ANGHENION ADDYSGU YCHWANEGOL
Gweithgaredd 2 ~ Y CWRICWLWM CRAIDD
Gweithgaredd 3 ~ DATBLYGU DYFODOL LLWYDDIANNUS
Gweithgaredd 4 ~ YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU / DYSGU PROFFESIYNOL

Clerk to the Governing Body

The Clerk to the Governing Body is:

Mrs G Davies
Director of Education and Inclusion Services,
The Education Centre, Ty Trevithick,
Abercynon, Rhondda Cynon Taf.
CF45 4UQ
Tel : 01443 744000

Chair of the Governing Body

The Chair of the Governing Body is:

Mrs K Vickers-Hulse
c/o YGGG Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy,
Miskin,
Pontyclun.
Rhondda Cynon Taf.
CF72 8TL

Election of Parent Governors

The next vacancy for Parent Governor will become available on **21.02.22**

If, however, a Parent Governor should resign before this time, arrangements will be made to hold an election at the appropriate time.

Members of the Governing Body

Here are the current members of the Governing Body:

Name	Category of Governor	Date of Retirement
Mr R O'Neil	(Head Teacher)	N/A
Miss S Williams	(Teaching Staff Representative)	31.08.20
Mrs S Krieger	(Support Staff Representative)	22.10.22
Mrs J James	(Community Representative)	17.11.20
Mrs J Heavisides	(Community Representative)	09.11.22
Mrs S Evans	(Community Representative)	15.03.21
Mrs C Willis	(L.A. Representative)	23.04.21
Dr M Gajraj	(L.A. Representative)	19.11.23
Mrs L Roberts	(L.A. Representative)	19.11.23
Cyng. H Rees	(Minor Authority Representative)	20.09.20
Mrs J Morgan	(Parent Governor)	12.10.23
Mrs H Holton	(Parent Governor)	09.10.23
Mrs K Vickers-Hulse	(Parent Governor)	21.02.22
Mr P Binning	(Parent Governor)	12.10.23

When complete, these are the numbers of each category of Governor:

3 L.A. Representatives	3 Community Representatives	4 Parent Governors
1 Support Staff Representative	1 Teaching Staff Representative	1 Head Teacher
1 Minor Authority		**Total = 14**

Community Focused Schools

A community focused school is one that: 'provides a range of services and activities' , often beyond the school day, to help meet the needs of its pupils, their families and the wider community. Across Wales, many schools already provide some community services including adult education, study support, ICT facilities and community sports programmes. The development of community-focused schools is not just a short term project or initiative, but a real opportunity for schools and communities to work together in new ways for the future benefit of children, young people and adults.

At our school we have community facilities which offer before and after school childcare for working parents. Staff at school offer a range of extra curricular activities on site including football, rugby, cricket and netball skills, choral rehearsals and Urdd club. We also host adult Welsh learners classes on the premises. PC Lloyd visits us on a regular basis to discuss with the pupils and hold sessions with all our pupils. We also have strong links with the local Police who occasionally visit school at the beginning and end of the school day to monitor traffic flow and parking outside the school.

Additional Learning Needs

The School's policy for the identification, assessment and provision for pupils with Additional Learning Needs is consistent with the requirements of the Special Educational Needs Code of Practice for Wales issued by the Welsh Assembly Government in January 2002. The School's Additional Learning Needs Co-ordinator (ALNCo) works closely with all other members of staff to ensure that individual educational plans are developed and implemented to meet the needs of pupils appropriate to those who require them. The ALNCo also liaises with all members of staff, to ensure that the progress of all pupils is regularly monitored and assessed and to ensure that each pupil reaches his or her potential.

This academic year, on the date of the PLASC census:

- 29 pupils were on School Action (29) / Early Years Action (0)
- 0 pupils were on School Action Plus (0) / Early Action Plus (including those with Notes in Lieu) (0)
- No pupils were undergoing Statutory Assessment.
- 2 pupils had a statement of Special Educational Needs.

Term Dates and Session Times

A copy of the terms and Holiday dates for the 2019-2020 academic year is as listed below. All schools will be closed on May Day Bank Holiday, **Friday 8th May 2019.** School will also be closed for INSET days on **02.09.19, 18.11.19, 06.01.20, 22.01.20, 20.04.20** and **20.07.20**. The Welsh Government may decide to allocate additional INSET days, schools will be informed of these at the appropriate time. Any closure(s) for election purposes are to be balanced during the academic year.

The times of the school day are as follows :

Foundation Phase		Key Stage 2	
Morning	9:00 – 12:00	**Morning**	9:00 – 12:15
Lunchtime	12:00 – 1:15	**Lunchtime**	12:15 – 1:15
Afternoon	1:15 – 3:30	**Afternoon**	1:15 – 3:30

Pupils who walk to and from school will leave first at the end of the school day. Parents and Carers are kindly asked to leave the school site promptly so that the buses may be released. Parents wishing to take pupils out of school early are kindly requested to inform the school by letter or telephone call no later than 2:30 pm please, stating the reason. Should any parent request that their child / children walk home from school unattended, this must be pre-arranged with the school and written permission provided to this effect. Should parents request that their child / children walk home after having travelled on school transport, this must be pre-arranged with the transport company and Local Authority. School is unable to give authorise this.



	Term Begins	Half Term Begins	Half Term Ends	Term Ends
Autumn 2019	Monday September 2nd	Monday October 28th	Friday November 1st	Friday December 20th
Spring 2020	Monday January 6th	Monday February 17th	Friday February 21st	Friday April 3rd
Summer 2020	Monday April 20th	Monday May 25th	Friday May 29th	Monday July 20th
INSET days	02.09.19 / 18.11.19 / 06.01.20 / 22.01.20 / 20.04.20 / 20.07.20			

School Prospectus

The School Prospectus is updated annually to include any changes required by the Welsh Government or other related bodies. Changes made this year amount to an updated staffing list and school holiday dates. A copy of the Prospectus is generally issued to parents whose children are starting school for the first time, transferring from Infant to Junior school, or from Junior/Primary to Secondary school. A copy of the Prospectus can be found on the school website. New parents also receive a copy of the school's 'Nursery Handbook' which contains all the information relevant to the new pupils. Parents are informed when amendments are made to the existing prospectus. Any parents wishing to e-mail us at school can do so. The e-mail and school website address is as follows:

admin.ygggllantrisant@rctcbc.gov.uk
www.ygggllantrisant.cymru

Post Inspection Action Plan

Governors are responsible for drawing up an Action Plan to address any key issues raised by Inspectors during the external Inspection of the School in September 2018. Parents were provided with a paper copy of the summary report produced by the Inspectors with a full electronic version made available by email and on request. Governors monitor the progress of the plan at their termly meetings.

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Review of School Policies

The school has a large number of Policy documents covering both curriculum and non-subject areas. These are reviewed and revised by staff and governors on an annual basis to incorporate changing trends and legislation. Further information is available by contacting the Head Teacher or School Clerk. During the Summer and Autumn Term 2019 our Safeguarding and Child Protection Policy and Healthcare Policy were reviewed.

Target Setting

The implementation and review of the school's strategies and targets is documented in detail in the School Improvement Plan. The current School Improvement Plan includes targets relating to Literacy and Numeracy standards, in line with Welsh Government national priorities, along with ICT and Additional Educational Needs.



Attendance Information

Parents are informed by letter should their child / children's attendance percentage fall below 90% during one half term. The school continues to monitor pupils' attendance which is deemed to be 'low' weekly as well as monitoring the late arrival of pupils daily. Listed below is the School's attendance for the previous three completed terms:

	% Attendance	% Authorised Absences	% Unauthorised Absences
Autumn 2018	96.96	1.98	1.06
Spring 2019	96.85	2.51	0.64
Summer 2019	96.23	1.67	2.10

Absence from school is a contributing factor in low pupil achievement, so the Welsh Government is targeting improved attendance. Parents can help this situation by informing the school if they feel that there are any problems that are preventing pupils from attending or causing the pupil to feel that they do not want to attend school. Parents are discouraged from taking pupils on holiday during term time as this can have a detrimental effect on attendance figures overall, especially when these absences are combined with contagious illnesses. In line with Local Authority guidance and policy, school will not authorise any periods of absence for family holidays during term time without prior careful consideration. Parents are also reminded that all absences from school should be explained through a telephone call to the office, on the first day of the absence and each day thereafter until the pupil returns to school in order for the absence to be classed as an 'authorised absence'.

Access for Disabled Pupils

The Governing Body is mindful of the requirements of the Disability Discrimination Act (DDA) 1995 and The Special Needs and Disability Act (SENDA) 2005 in drawing up the School Development Plan / Post Inspection Plan, and the day to day operation of the whole site. The school is committed to ensuring that all pupils are able to participate in the school curriculum and (where they desire) in activities such as after school clubs, leisure/sporting events and educational visits. All aspects of accessibility, including access to written information are included in the planning process. The Authority has in place an Accessibility Strategy and in line with this strategy has had an audit of the school site undertaken, as part of an Authority wide brief, to identify any potential barriers and (ultimately) improve the access to the school.

National Curriculum Assessment Results for Foundation Phase and Key Stage 2 Pupils

Enclosed, as APPENDIX A, is a copy of the National Curriculum Assessment Results for the 2018-2019 Academic Year.



Financial Statement for the 2018-2019 Period

Enclosed, as APPENDIX B, is a copy of the School's Financial Statement for the Financial Year 2018-2019.

Admission / Transition Arrangements

The County Borough Council is the Admissions Authority for all schools (other than Church schools where the school's Governing Body is the admissions authority) within the Authority's boundary. The school's admission arrangements are, therefore, operated in line with the Authority's policy on school admissions which is contained in the publication Starting School booklet. The booklet is made available to parents at the point of their application for their child's admission to school. The contents of this book can also be accessed online on the Authority's website. Pupils will usually remain in the school until they complete year six and then transfer to secondary school. This school is a feeder school for Ysgol Llanhari (comprehensive school). However, pupils may apply to attend any secondary school they choose subject to compliance with the Authority's Admissions Policy.

Healthy Eating

The school's policies and schemes of work promote healthy eating and drinking. The pupils are encouraged to eat fruit and drink water during break times and lunchtimes. In addition, the children are encouraged to plant seeds and bulbs to grow fruit and vegetables in the school garden to raise awareness of healthy eating.

Welsh Network of Healthy School Schemes

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Growing School

As of September 2019 the number of pupils on roll was **295**. In order to accommodate all pupils, class structures were reorganised in line with school policy at the end of 2018-2019. Inevitably, and as is usual, some classes contain two age groups or pupils of 'mixed' ages in order that we fully conform to Welsh Government requirements. Further information regarding the 2019-2020 academic year's classes and staffing details was forwarded to parents along with the annual school report during July 2019. Please note that the school was designed for 1.5 form entry.

Fabric of the Building

The school, in its present building, was officially opened on July 11th 2005. It continues to be in a sound and well maintained condition. The learning environment for our pupils is safe, welcoming, stimulating and clean with all pupils receiving access to appropriately well-maintained toilet facilities. Pupils in the Foundation Phase have washroom facilities which adjoin their classrooms whilst Key Stage 2 pupils have shared facilities situated in close proximity to their classrooms. Washroom facilities are also located adjacent to the school hall and in the Community Room. All washroom facilities are regularly monitored and cleaned daily to a high standard by our Cleaning and Caretaking staff.

The Curriculum, Educational Organisation and Teaching Methods

Our school is a Welsh medium school and all pupils and staff members are expected to use the language in their daily routines all day, every day. The Curriculum is delivered using a variety of teaching methods best suited to the subject, the individual needs and ability of the children. In the Foundation Stage, children are taught through practical experiences. In Key Stage 2, the teaching style is generally more formal with core subjects taught in morning sessions and thematic work following Donaldson's 6 Areas of Learning and Experience in the afternoons. Depending on the nature of the task / activity, pupils are grouped and taught in a number of ways. The teacher may change these groups for certain activities to ensure the pupils work at their best at all times. Across both Key Stages, literacy, numeracy and digital competency skills are developed cross-curricularly by following the relevant frameworks.

The Three Cross-curricular Responsibilities



The Six Areas of Learning and Experience



The Four Purposes

The purposes of the curriculum in Wales should be that children and young people develop as:

ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives;
enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work;
ethical, informed citizens of Wales and the world;
healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

Sporting Achievements During The Year

The school takes part in a range of sporting activities throughout the year which are in addition to the two timetabled curriculum PE sessions in each class throughout the school. All pupils are to be congratulated for their efforts. Extra-curricular sports clubs are held weekly under the direction of the teaching staff. We should like to thank the staff for voluntarily giving of their time so these clubs may take place. Further photographs and celebrations are regularly placed on the school's Twitter account ***(@yggglantrisant)*** throughout the academic year.





School Improvement Plan

Governors are responsible for drawing up (in conjunction with staff) the School Improvement Plan. The plan identifies the direction the school will take, over a three year period, in delivering the curriculum. The plan is regularly monitored and revised to take account of progress made and any changes to curriculum requirements. The School Improvement Plan for the 2019-2020 academic was considered and approved by Governors and is currently being implemented by the staff. The targets set include short, medium and long-term aims. Targets are regularly reviewed by the Governing Body.

Activity 1 ~ ADDITIONAL LEARNING NEEDS
Activity 2 ~ THE CORE CURRICULUM
Activity 3 ~ DEVELOPING 'SUCCESSFUL FUTURES'
Activity 4 ~ SCHOOLS AS LEARNING ORGANISATIONS / PROFESSIONAL LEARNING

Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2019) ac yn genedlaethol (2018) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 fel canran o'r rhai oedd yn gymwys i'w hasesu.

Summary of National Curriculum Assessment results of pupils in the school (2019) and nationally (2018) at the end of **Key Stage 2** as a percentage of those eligible for assessment.

		N	D	NCO1	NCO2	NCO3	1	2	3	4	5	6+	4+
SAESNEG *ENGLISH*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	33	64	2	100
	Cenedlaethol *National*	0.2	0.3	-	-	-	0.5	1.2	6.5	45.1	44.2	1.7	91.1
Llafaredd *Oracy*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	27	71	2	100
	Cenedlaethol *National*	0.2	0.3	-	-	-	0.4	1.1	6.3	45.0	44.6	1.8	91.5
Darllen *Reading*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	31	67	2	100
	Cenedlaethol *National*	0.2	0.3	-	-	-	0.5	1.2	7.0	43.0	45.6	2.0	90.6
Ysgrifennu *Writing*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	7	36	53	4	93
	Cenedlaethol *National*	0.2	0.3	-	-	-	0.5	1.6	10.5	49.5	35.6	1.5	86.7
CYMRAEG *WELSH*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	47	53	0	100
	Cenedlaethol *National*	0.1	0.2	-	-	-	0.5	1.7	7.9	49.3	39.0	1.3	89.7
Llafaredd *Oracy*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	49	49	2	100
	Cenedlaethol *National*	0.1	0.2	0	0	0	0.5	1.5	7.0	48.3	41.1	1.5	90.8
Darllen *Reading*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	47	53	0	100
	Cenedlaethol *National*	0.1	0.2	-	-	-	0.5	1.8	8.6	46.3	40.9	1.6	99.9
Ysgrifennu *Writing*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	7	47	47	0	93
	Cenedlaethol *National*	0.1	0.2	-	-	-	0.6	1.9	12.4	53.3	30.4	1.2	84.9
MATH. *MATHS*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	4	20	67	9	96
	Cenedlaethol *National*	0.2	0.3	-	-	-	0.4	1.1	5.9	44.0	45.6	2.2	91.8
GWYDD. *SCIENCE*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	24	76	0	100
	Cenedlaethol *National*	0.2	0.3	-	-	-	0.4	1.0	5.7	45.6	46.1	0.4	92.1

DANGOSYDD PWNC CRAIDD *CORE SUBJECT INDICATOR*	
Ysgol *School*	96%
Cenedlaethol *National*	89.5%

- **Mae D yn sefyll am y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113-116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu modd i athrawon gynnal asesiad ohonynt**
- **Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso. Mae Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn disgrifio cyflawniad o dan lefel 1**
- **Y disgwyl yw y bydd mwyafrif o ddisgyblion 11 oed yn cyrraedd Lefel 4.**
- **Mae'r Dangosydd Pwnc Craidd yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.**
- *D represents pupils who have been disapplied under sections 113-116 of the 2002 Education Act, or pupils for whom teachers were unable to provide an assessment.*
- *N represents pupils not awarded a level for reasons other than disapplication. National Curriculum Outcomes 1, 2 and 3 describe achievements below level 1.*
- *The general expectation is that the majority of 11 year olds will attain level 4.*
- *The Core Subject Indicator represents the percentage of pupils achieving level 4 or above in English or Welsh (first language), mathematics and science in combination.*

CYFNOD SYLFAEN - DEILLIANNAU 2019
CANLYNIADAU'R YSGOL A CHENEDLAETHOL
FOUNDATION PHASE - OUTCOMES 2019
SCHOOL AND NATIONAL

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y disgyblion sy'n cyrraedd pob deilliant
The following table shows the percentage of pupils attaining each outcome.

		N	D	W	1	2	3	4	5	6+	5+
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Saesneg (LCE) *Language, Literacy and Communication Skills in English (LCE)*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cenedlaethol *National*	0.1	0.3	0.7	0.4	0.9	3.1	10.5	50.5	33.5	84.0
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Gymraeg (LCW) *Language, Literacy and Communication Skills in Welsh (LCW)*	**Ysgol** *School*	0	0	0	3	0	0	3	39	55	94
	Cenedlaethol *National*	-	0.1	0.1	0.3	0.7	2.2	10.6	52.9	33.2	86.1
Datblygiad Mathemategol (MDT) *Mathematical Development (MDT)*	**Ysgol** *School*	0	0	0	3	0	0	3	39	55	94
	Cenedlaethol *National*	0.1	0.3	0.5	0.3	0.6	2.2	9.5	52.6	33.9	86.6
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (PSD) *Personal and Social Development, Well-being and Cultural Diversity (PSD)*	**Ysgol** *School*	0	0	0	0	0	0	3	6	90	97
	Cenedlaethol *National*	0.1	0.3	0.5	0.3	0.5	1.2	3.8	34.0	59.4	93.4

Roedd 31 o ddisgyblion yn y garfan
There were 31 pupils in the group

DANGOSYDD Y CYFNOD SYLFAEN *FOUNDATION PHASE OUTCOME INDICATOR*	
Ysgol *School*	94%
Cenedlaethol *National*	82.6%

- **Mae D yn sefyll m y disgyblion hynny sydd wedi'u datgymhwyso o dan Adrannau 113-116 y Ddeddf Addysg 2002 neu ddisgyblion na fu mod di athrawon gynnal asesiad ohonynt**
- **Mae N yn sefyll am y disgyblion hynny sydd heb gael lefel wedi ei ddyfarnu am resymau heblaw datgymhwyso.**
- **Mae W yn sefyll am y disgyblion sy'n gweithio at ddeilliant 1 ond nad ydynt eto wedi cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer lefel 1.**
- **Y disgwyl yw y bydd mwyafrif o ddisgyblion 7 oed yn cyrraedd Deilliant 5.**
- **Mae'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.**
- *D represents pupils who have been disapplied under sections 113-116 of the 2002 Education Act, or pupils for whom teachers were unable to provide an assessment.*
- *N represents pupils not awarded an outcome for reasons other than disapplication.*
- *W represents pupils who are 'working towards' outcome 1, but have not yet achieved the standards needed for outcome 1.*
- *The general expectation is that the majority of 7 year olds will attain outcome 5.*
- *The Foundation Phase Indicator represents the percentage of pupils achieving outcome 5 or above in PSD, LCE/LCW and MDT in combination.*

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL GYMRAEG LLANTRISANT
DATGANIAD CYLLIDOL ANSWYDDOGOL AM Y FLWYDDYN 2018-2019
PROVISIONAL FINANCIAL STATEMENT FOR 2018-2019

COSTAU GWEITHWYR *EMPLOYEE COSTS*	**Gwariant** *Total Spent*
ATHRAWON (gan gynnwys Pennaeth/Cyflenwi/Cymorth Iaith) TEACHERS (including Headteacher/Supply/Language support)	587,157
GWEITHWYR CYNORTHWYOL (Gofalwr/Cymhorthwyr/Glanhawyr) MANUAL WORKERS (Caretaker/Supervisory Assistants/Cleaners)	55,351
STAFF ATODOL (Clerc yr Ysgol/Nyrsys Meithrin/Cymorth Athrawon) SUPPORT STAFF (School Clerks/Nursery Nurses/School Aides)	261,390
YN YMWNEUD AG ADEILADAU *PREMISES RELATED*	
ATGYWEIRIADAU I ADEILADAU, SAFLE (gan gynnwys cynnal a chadw y tir a diogelwch) REPAIRS TO BUILDING, SITE, (including grounds maintenance & security)	19,765
EGNI *ENERGY*	13,397
TRETHI *RATES*	29,298
DWR *WATER*	2,912
ADNODDAU GLANHAU *CLEANING MATERIALS*	3,622
CYFLENWADAU, GWASANAETHAU A CHOSTAU ERAILL *SUPPLIES, SERVICES AND OTHER EXPENSES*	
OFFER A DODREFN YSGOL *SCHOOL EQUIPMENT AND FURNITURE*	46,082
POST *POSTAGE*	131
FFONAU *TELEPHONES*	2,719
YSWIRIANT *INSURANCE*	17,055
CLERCIO LLYWODRAETHWYR, GWEINYDDIAETH CYLLIDOL A PERSONÉL CLERKING GOVERNING BODY, FINANCIAL ADMINISTRATION & PERSONNEL	17,011
DEFNYDD O GYFLEUSTERAU YR ARDAL *USE OF DISTRICT FACILITIES*	4,303
AMRYWIOL *MISCELLANEOUS*	7,482
CYFANSWM *TOTAL*	**1,067,675**
INCWM *INCOME*	
AMRYWIOL *MISCELLANEOUS*	94,724
FFORMIWLA *FORMULA ALLOCATION*	897,562
GRANTIAU LLC *WG GRANTS*	94,308
CYFANSWM *TOTAL*	**1,086,594**